

CYNGOR CYMUNED LLANWENOG COMMUNITY COUNCIL

Neuadd y Pentref, Drefach am 7.30yh 4ydd o Ionawr 2017 / 4th January 2017

Yn bresennol / Present: Cyng Geraint Davies, Cyng Euros Davies, Cyng Lewis Davies, Cyng Bill Green, Cyng Gwilym Jenkins, Cyng Daniel Evans, Cyng Helen Howells, Cyng Mary Thomas, Cyng Daff Davies

Ymddiheiriadau/ Apologise: Dim/None

Materion Personol/Personal Matters:

Dymunwyd Blwyddyn Newydd Dda i bawb gan ddymuno pob iechyd ac hapusrwydd. *A Happy New Year and a healthy and happy one was extended to all.*

1.	<u>Datgelu Buddianau Personol/Declare Personal Interests</u> Gwnaeth y Cyng Geraint Davies ddatgan fuddiant personol ym mhwynt 6b a gadawodd y Clerc yr adeilad hefyd. Cllr Geraint Davies declared a personal interest in point 6b and the Clerk also left the building.	
2.	<u>Cadarnhau'r Cofnodion / Agree Minutes</u> Cafwyd cofnodion cyfarfod mis Rhagfyr yn gywir gan y Cyng. Bill Green ac fe'i eiliwyd gan y Cyng Lewis Davies. <i>The December minutes were proposed as a true record by Cllr Bill Green and seconded by Cllr Lewis Davies.</i>	
3.	<u>Materion yn Codi – Matters Arising</u>	
a.	Taith Dros Fywyd/Walk for Life: Fe wnaeth y Cadeirydd siarad gyda'r Cyng Geraint Hatcher a beth sydd yn ei boeni yw'r diffyg llwybrau cyhoeddus newydd yng Nghorsgoch. Penderfynwyd meddwl am y peth, efallai y gall ysgolion Cwrtnewydd neu Llanwenog cael eu defnyddio fel safle cychwyn a gorffen. Penderfynwyd siarad gyda'r Cyng Hatcher eto. <i>The Chairman had spoken to Cllr Geraint Hatcher and what worried him was the lack of new public footpaths which could be used in Gorsgoch. It was decided to think about it and maybe use Cwrtnewydd or Llanwenog Schools as a base to start and finish. It was decided to speak to Cllr Hatcher again.</i>	Cyng Geraint Davies
b.	Cyfarfod Bandllydan a Signal Ffon ym Mhlwyf Llanwenog / <i>Broadband and Phone Signal Meeting in Llanwenog Parish:</i> Mi fydd y digwyddiad rhwng 5.30-8.30 nos fercher nesaf yn Neuadd yr Hafod. Cost llogi'r Neuadd yw £15.00, bydd printio yn rhyw 25c am bob A4. Mae Surveymonkey wedi ei sefydlu. Angen i bawb recordio cyflymder eu band eang. Mi fydd y Cyng Howells yn cwrdd a phennaeth BT ddiwedd mis Ionawr. <i>The event will happen between 5.30-8.30 next Wednesday evening in Neuadd y Hafod. The cost of hiring the hall will be £15.00 and the printing cost will be some 25p per A4. Surveymonkey has been set up. Everyone needs to record the speed of their broadband. Cllr Howells will be meeting with the head of BT at the end of January.</i>	

c.	<p>Cysgodfan Bws Gorsgoch Bus Shelter. Y Clerc i edrych i fewn i weld os oes hawl gan y Cyngor Cymuned werthu'r gysgodfan. Os oes yna mae angen hysbysebu hyn ar y wefan ac yn Clonc. <i>The Clerk needs to look into whether the Community Council are allowed to sell the shelter. If this is allowed then it needs to be advertised on the website and in Clonc.</i></p>	
d.	<p>Ciosg Cwrtnewydd Kiosk – Mae pobl Cwrtnewydd wedi dangos diddordeb mewn gwneud rhywbeth yn y Ciosg, felly penderfynwyd eu gwahodd i'r cyfarfod nesaf i drafod ymhellach. A few people from Cwrtnewydd have shown an interest in doing something with the Kiosk, it was decided to invite them to the next meeting to discuss further.</p>	
4.	<p><u>Gohebiaeth – Correspondence</u></p> <p>a. <i>DIGIGWENOG - Nodwyd/Noted</i></p> <p>b. <i>Publication of principles and guidance for the appropriate use of non guaranteed hour arrangements in devolved public services. Nodwyd/Noted</i></p> <p>c. <i>Ymgynghoriad ynglyn a newid enw'r Cynulliad Cenedlaethol / Consultation on changing the name of the National Assembly. Nodwyd/Noted</i></p> <p>d. <i>Garddwestau Palas Buckingham 2017 / 2017 Buckingham Palace Garden Parties. Rhoi enw'r Cadeirydd ymlaen eleni eto. To put forward the Chairman's name yet again this year.</i></p> <p>e. <i>Etholiadau Cyngorau Cymuned 2017 Community Councils Elections 2017 – Mi fyddant yn cael eu cynnal ar y 4ydd o Fai 2017. They will be held on the 4th of May 2017.</i></p> <p>f. <i>Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol / Independent Remuneration Panel for Wales. Nodwyd/Noted</i></p> <p>g. <i>Penodi Cadeirydd ac Aelodau i Hybu Cig Cymru / Appointment of Chair & Members to Hybu Cig Cymru – Meat Promotion Wales. Nodwyd/Noted</i></p> <p>h. <i>Battle's Over – A Nation's Tribute 100 years of Remembrance / 11th November 2018. Penderfynwyd nodi ein diddordeb. It was decided to note our interest.</i></p> <p>i. <i>Ymghynghori ar Amcanion Llesiant 2017-2018 CCC Consultation on Wellbeing Objectives 2017-18. Cytunwyd gyda'r argymhellion. Agreed with the suggested objectives.</i></p>	

j.	<p><i>Cofgolofn/War Memorial – Derbyniwyd llythyr o gwyn am ail-leoli'r Gofgolofn drwy law y Cyng Euros Davies. Penderfynwyd y byddai'r Cynghorydd Sir yn ymateb iddo. A letter of complaint was received to the repositioning of the War Memorial through the hand of Cllr Euros Davies. It was decided that the County Council would respond to it.</i></p>	
5.	<p><u>Taliadau a Ceisiadau am Arian – Payment and requests</u></p> <p>a. Arwchiliad y Cyfrifon/Financial Audit £186.00</p> <p>b. Treuliau'r Clerc/Clerks Expenses £135.51</p> <p>c. Costau Cyfieithu/Translation Costs £151.80</p> <p>d. Cyflog y Clerc/Clerk's Salary £115.20</p> <p>e. HMRC £28.80</p> <p>Cytunwyd i dalu a-e gan y Cyng Daff Davies ac eiliwyd gan y Cyng Daniel Evans. <i>It was proposed to pay a-e by Cllr Daff Davies and this was seconded by Cllr Daniel Evans.</i></p>	
6.	<p><u>Cyfrifon / Accounts</u></p> <p>a. Adroddiad Cwarterol/Quarterly Report – Derbyniwyd/Accepted</p> <p>b. Cyflog y Clerc / Clerk's Salary - £250.00 i ddechrau ar unwaith/to start immediately</p> <p>c. Precept 2017-2018 £9,500.00 C: Cyng Gwilym Jenkins E: Cyng Helen Howells</p> <p>d. Section 137 Expenditure Limit for 2017-2018. £7.57 am bob etholwr/per elector</p>	
7.	<p><u>Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf/Date and time of next meeting</u></p> <p>a. Penderfynwyd cynnal y cyfarfod nesaf ar nos Fercher, 7fed o Chwefror am 7.30yh yn Neuadd Bentref Drefach. <i>It was decided to hold the next meeting on the 7th of February at 7.30pm at Drefach Village Hall.</i></p> <p>b. Bu sawl damwain cas ger Gellideg oherywdd ia, gofynwyd i'r Clerk gysylltu gyda'r adran briffyrdd i ofyn iddyn raeau'r heol. A number of nasty accidents have happened near Gellideg due to icy conditions, the Clerk was asked to contact the highways department to ask them to grit the road.</p> <p>c. Dywedodd y Cyng Euros Davies y bydd y cyflymder yn Drefach yn newid o 40mya lawr i 30mya lle mae'r cyflymder ar hyn o bryd ac yn ymestyn at 40mya hyd Pwllbybilwg. Cllr Euros Davies explained that the speed limit in Drefach will change</p>	

	from 40mph to 30mph where the speed restrictions it at present and will extend out to 40mph to Pwllbilwg.	
d.	Gofynodd y Cyng Helen Howells a byddai modd cael golau stryd tu allan i Sêr Bach, gofynwyd iddi siarad gyda Sêr Bach yn gyntaf i weld os yw'n ddymuniad gyda nhw. <i>Cllr Helen Howells asked whether it would be possible to have a Street light outside Sêr Bach, it was suggested that she asked Sêr Back first if this was something that they wanted.</i>	